CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Cynghorwyr arbennig: cofrestr o fuddiannau 2024

Cofrestr o fuddiannau cynghorwyr arbennig ym mis Hydref 2023.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Rhagfyr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cynnwys

**Cyflwyniad** (https://www.llyw.cymru#160307)

**Kevin Brennan** (https://www.llyw.cymru#160309)

**Sarah Dickins** (https://www.llyw.cymru#160311)

**Madeleine Brindley** (https://www.llyw.cymru#160313)

**Philippa Marsden** (https://www.llyw.cymru#160315)

**Martha O’Neil** (https://www.llyw.cymru#160317)

**Mary Wimbury** (https://www.llyw.cymru#160319)

**Haf Davies** (https://www.llyw.cymru#160321)

**Jackie Jones** (https://www.llyw.cymru#160323)

**Aelodaeth o Undebau Llafur** (https://www.llyw.cymru#160325)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Cyflwyniad

Rhaid i gynghorwyr arbennig sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro’n codi, neu y gellid ystyried ei fod yn codi, rhwng eu dyletswyddau cyhoeddus a’u buddiannau preifat, yn ariannol neu fel arall.

Rhaid datgan buddiannau i Bennaeth Is-adran y Cabinet fel rhan o’r broses benodi. Mae’r wybodaeth bersonol y mae cynghorwyr arbennig yn ei datgelu yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Mae pob cynghorydd arbennig wedi cyflwyno ffurflen datgan buddiannau wedi’i chwblhau, gan gynnwys ffurflenni dim buddiant mewn achosion pan nad oedd gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl neu ganfyddiadol. Pan fo’n berthnasol i’r rôl, ac er mwyn helpu i reoli canfyddiad o wrthdaro neu i egluro sut y mae gwrthdaro yn cael ei reoli, cyhoeddir y buddiannau yn flynyddol.

Mae Pennaeth Is-adran y Cabinet wedi ystyried y ffurflenni hyn ac wedi barnu y dylai’r buddiannau perthnasol a ganlyn gael eu cyhoeddi.

# Kevin Brennan

## Buddiannau

- Mae aelod o’r teulu yn gweithio i Ffilm Cymru. Mae Mr Brennan yn cael ei ymesgusodi o gymryd unrhyw ran mewn materion sy’n ymwneud â’r sefydliad, os byddant yn codi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Sarah Dickins

## Buddiannau

- Ymddiriedolwr, Peak Cymru. Mae Ms Dickins yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â gwaith neu gyllid yr Ymddiriedolaeth, os byddant yn codi.
- Perchnogaeth deuluol o fferm ddefaid yn y De. Mae Ms Dickins yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â datblygu polisi amaethyddol.
- Perchennog Sarah Dickins Sustainable Economics Consultancy. Ni fydd Ms Dickins yn ymgymryd ag unrhyw waith ar gyfer y cwmni yn ystod ei chyfnod fel Cynghorydd Arbennig.
- Cyfarwyddwr Blue Egg Productions. Bydd Ms Dickins yn rhoi’r gorau i’r rôl hon ac ni fydd yn derbyn incwm o’r busnes hwn yn ystod ei chyfnod fel Cynghorydd Arbennig. Mae’r newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud gan Dŷ’r Cwmnïau.
- Ei phartner yn Gyfarwyddwr Miller Research UK Ltd. Mae Ms Dickins yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â busnes ei phartner neu gleientiaid y busnes, os byddant yn codi.
- Cynghorydd Cymuned ar gyfer Ward Ynysgynwraidd. Mae’r rôl hon i gael ei chyflawni yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Arbennig.

# Madeleine Brindley

## Buddiannau

- Aelod o Gymdeithas y Cerddwyr. Mae Ms Brindley yn cael ei hymesgusodi o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â gwaith neu gyllid y gymdeithas, os byddant yn codi.

# Philippa Marsden

## Buddiannau

- Llywodraethwr Cymuned ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.
- Ymddiriedolwr, Clwb Athletau Harriers Casnewydd. Mae Ms Marsden yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â gwaith neu gyllid yr Ymddiriedolaeth, os byddant yn codi.

# Martha O’Neil

## Buddiannau

- Llywodraethwr, Ysgol Dyffryn Aman.
- Cyflogir aelod o’r teulu gan y Senedd.
- Aelod o gwmni sy’n berchen ar rydd-daliad eiddo sy’n cynnwys anheddau ar les (nid yw’n rôl cyfarwyddwr nac yn un y derbynnir cydnabyddiaeth ariannol amdani). Bydd Ms O’Neil yn datgan buddiant pan fo angen cyn cymryd y camau priodol i ymesgusodi os bydd hynny yn ofynnol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

# Mary Wimbury

## Buddiannau

- Ymddiriedolwr, UK Mathematics Trust. Mae Ms Wimbury yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â gwaith neu gyllid yr Ymddiriedolaeth, os byddant yn codi.
- Ei phartner yn Aelod o Fwrdd Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Cyfarwyddwr, Cyngor ar Bopeth Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr Cyngor ar Bopeth Gwynedd. Mae Ms Wimbury yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â Chyngor ar Bopeth, os byddant yn codi, ac yn cael ei hymesgusodi hefyd o gymryd rhan mewn materion polisi neu gyllid sy’n ymwneud â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru, os byddant yn dechrau cynnig cyfleusterau gofal ychwanegol.
- Aelod o’r Pwyllgor Gweithredol Cenedlaethol, y Blaid Gydweithredol. Mae’r rôl hon i gael ei chyflawni yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Arbennig.

# Haf Davies

## Buddiannau

- Mae aelod o’r teulu yn gweithio i’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Bydd Ms Davies yn datgan buddiant ac yn ymesgusodi o faterion ym maes penodol y gwaith y mae’r aelod o’r teulu yn ei wneud ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ôl yr angen.
- Mae aelod o’r teulu yn gweithio i’r Yr Eglwys yng Nghymru.  Bydd Ms Davies yn datgan buddiant ac yn ymesgusodi o faterion ym maes penodol y gwaith y mae’r aelod o’r teulu yn ei wneud ar gyfer yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

yn ôl yr angen.

# Jackie Jones

## Buddiannau

- Cynghorydd Lleol, Dinas a Sir Caerdydd. Mae’r rôl hon i gael ei chyflawni yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Arbennig.
- Aelod o’r Bwrdd, y Gymdeithas Ewropeaidd i Fenywod sy’n Gyfreithwyr. Mae Ms Jones yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â'r Bwrdd, os byddant yn codi.
- Noddwr, y Mudiad Ewropeaidd. Mae Ms Jones yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â'r Mudiad, os byddant yn codi.
- Aelod o’r Weithrediaeth, Mudiad Llafur dros Ewrop. Mae’r rôl hon i gael ei chyflawni yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Arbennig ac mae Ms Jones yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â’r Mudiad, os byddant yn codi.
- Ymddiriedolwr, Cymru Ddiogelach. Mae Ms Jones yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â gwaith neu gyllid yr Ymddiriedolaeth, os byddant yn codi.
- Cadeirydd, Cyngor y Blaid Gydweithredol yng Nghymru. Mae’r rôl hon i gael ei chyflawni yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Arbennig.
- Darlithydd yn y Gyfraith, Prifysgol Caerdydd (cyflogedig, rhan-amser). Bydd Ms Jones yn ymgymryd â’r rôl hon ar sail ran-amser tan fis Rhagfyr 2024 pan fydd y rôl yn dod i ben. Mae Ms Jones yn cael ei hymesgusodi o gymryd rhan mewn materion sy’n ymwneud â Phrifysgol Caerdydd, os byddant yn codi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

## Aelodaeth o Undebau Llafur

Mae gan Gynghorwyr Arbennig hawl i ddal aelodaeth o undeb llafur mewn rhinwedd bersonol, ond rhaid cymryd gofal i osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ganfyddiadol â’u rolau portffolio. Mae’n ofynnol, felly, i Gynghorwyr Arbennig ystyried yr angen i ddatgan buddiant ac i ymesgusodi eu hunain, pan ystyrir y bo hynny’n angenrheidiol, o drafodaethau â'u Hundeb Llafur sy’n ymwneud â pholisi Llywodraeth Cymru yn eu meysydd.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cynghorwyr-arbennig-cofrestr-o-fuddiannau-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint** (https://www.llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).